**Sesiwn 1999-2000 Rhif 48**

# PAPURAU BUSNES

## DYDD MERCHER, 9 CHWEFROR 2000

## RHAN 1 – ADRAN A

## AGENDA

**Bydd y cyfarfod yn cychwyn am 2pm**

**Cwestiynau i Peter Law - yr Ysgrifennydd dros Lywodraeth Leol a'r Amgylchedd**(15 munud)
Mae rhestr o'r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe'r Siambr)

**Cynnig i Gymeradwyo Rheoliadau Cyngor Datblygu Llaeth (Gwelliant) 2000. Gorchymyn Rhan 2 o Reol Sefydlog 22 yw'r gorchymyn hwn ac mae'n amodol ar drefn Seneddol**
Cynnig bod y Cynulliad, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog Rhif 22.33, yn cymeradwyo copi drafft Gorchymyn Cyngor Datblygu Llaeth (Gwelliant) 2000. Gosodwyd copi o'r gorchymyn drafft hwn yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Mercher 2 Chwefror

**Cynnig o Ddiffyg Hyder (wedi'i gyflwyno gan: Ieuan Wyn Jones; Nicholas Bourne; Michael German; Jocelyn Davies; William Graham; Jenny Randerson)**
Nid oes gan y Cynulliad Cenedlaethol hyder yn y Prif Ysgrifennydd

**Dadl ar Bolisi Trafnidiaeth Integredig Cymru**
Cynnig bod y Cynulliad:

Yn nodi'r camau cadarnhaol sydd ar y gweill i roi trafnidiaeth integredig ar waith yng Nghymru. Mae'n cydnabod nad proses tymor byr yw datblygu trafnidiaeth integredig a bod gan y Cynulliad rôl sylweddol i'w chwarae yn y gwaith o gyflawni'r canlyniadau yn 'Gwell Cymru' ar gynhwysiant cymdeithasol, gwell iechyd, ansawdd bywyd, datblygiad cynaliadwy ac economi gryfach, wedi'i thargedu

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd

wedi penderfynu grwpio’r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth – ond bydd y pleidleisiau’n cael eu cymryd yn unigol:

(1)

(2)

(3+4)

**Gwelliant 1 - Janet Ryder (Gogledd Cymru);**
Ar ôl y llinell gyntaf ychwaneger:

"ac yn galw ar y Prif Ysgrifennydd i gyflwyno achos gerbron Ysgrifennydd Gwladol Cymru er mwyn sicrhau bod unrhyw ddeddfwriaeth gan Lywodraeth y DU yn galluogi’r Cynulliad i roi ei bolisïau ar waith a bod unrhyw arian cyhoeddus sydd ar hyn o bryd yn cael ei weinyddu gan gyrff eraill mewn perthynas â’r polisïau hynny yn cael ei drosglwyddo i’r Cynulliad Cenedlaethol."

**Gwelliant 2 - David Davies (Mynwy);**
Yn dilyn y llinell;

"Yn nodi’r camau cadarnhaol sydd ar y gweill i roi trafnidiaeth integredig ar waith yng Nghymru."

Dileer gweddill y cynnig ac ychwaneger;

"Ond eto’n nodi yn siomedig bod y Llywodraeth yn dilyn polisïau gwrth-geir ac yn ceisio gyrru’r car oddi ar y ffordd drwy gyfrwng rheolau a threthi cyn bod system Cludiant Cyhoeddus gyflawn a dibynadwy yn bodoli.

Mae’r Cynulliad hwn yn cydnabod mai’r car o hyd yw’r unig ddull dibynadwy o deithio i lawer, yn arbennig yng nghefn gwlad a hyd nes bod cludiant cyhoeddus rhad a dibynadwy ar gael i bawb, dylai’r Llywodraeth ostwng y dreth ar danwydd sy’n rhoi’n busnesau a’r sawl sydd heb fynediad, neu fawr ddim mynediad i gludiant cyhoeddus, dan anfantais."

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru);**
Yn yr ail linell dileer "gan y Cynulliad" ac ychwaneger "ganddo" yn ei le.

**Gwelliant 4 - Peter Black (Gorllewin De Cymru);**
Ychwanegu ar y diwedd "Yn credu bod angen i’r Cynulliad Cenedlaethol gael pwerau a chyfrifoldebau ychwanegol er mwyn rhoi trafnidiaeth integredig ar waith yng Nghymru mewn dull effeithiol, yn benodol;

Y gallu i greu Awdurdodau Cludiant Teithwyr

Y pwer i gyfarwyddo'r SRA mewn perthynas â chael un fasnachfraint reilffordd ar gyfer Cymru

Cael cynrychiolydd o Gymru ar yr SRA wedi ei benodi gan y Cynulliad Cenedlaethol

**Cymeradwyo Canllawiau Cynllunio**

Cynnig bod y Cynulliad:

Yn mabwysiadu'r canllawiau canlynol ar ymdrin â gwaith achos cynllunio mewn modd priodol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru:

- Y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad *

- Y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Panel Penderfyniadau Cynllunio*

A bod y Llywydd yn rhoi'r Cod Ymddygiad perthnasol i'r Panel Penderfyniadau Cynllunio yn unol â Rheol Sefydlog 27.

*Gosodwyd y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Panel Penderfyniadau Cynllunio yn y Swyddfa Gyflwyno ar 02.02.2000

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

*******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad**

**am 2.00pm ddydd Mawrth, 15 Chwefror 2000**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**